# Consesiynau Traeth Abermaw 2026
# Cyngor Gwynedd: Cyfarwyddiadau Gwneud Cais

Mae Cyngor Gwynedd yn gwahodd ceisiadau ar gyfer Consesiynau Traeth yn Abermaw ar gyfer 2026, 2027 a 2028 (ar gyfer y cyfnod tymhorol o'r 1af o Ebrill – 31ain o Hydref ym mhob blwyddyn).

Pwrpas cynllun consesiynau'r Traeth yw ymestyn yr ystod o gyfleusterau traeth, cefnogi busnesau lleol a gwella'r profiad o ymweld â thraeth Abermaw.

Rhaid i geisiadau am gonsesiynau traeth Abermaw gydymffurfio â'r canlynol:

- Ni gaiff y gweithgareddau ymwneud â gwerthu bwyd, diod, hufen iâ ayyb.
- Ni gaiff y gweithgareddau ymwneud â gwerthu offer traeth (yn cynnwys bwcedi, rhawiau, gwarchodwr gwynt, deunyddiau wedi chwythu ayyb) na nwyddau eraill.
- Rhaid i weithgareddau allu dangos eu bod yn darparu cyfleusterau ychwanegol at y rhai a ddarperir gan fusnesau yng nghanol y dref.

1. Nid yw'r Cyngor yn ymrwymo i dderbyn unrhyw Gais.

2. Rhaid i unrhyw ymholiadau gael eu gwneud cyn cyflwyno cais.

3. Rhaid i bob cais gael ei gyflwyno yn defnyddio'r Ffurflen Gais ddynodedig a'i yrru dros e-bost at stadau@gwynedd.llyw.cymru.

4. Rhaid i bob cais gael ei dderbyn erbyn dim hwyrach na **12yh ar ddydd Mercher y 28ain o Ionawr, 2026**. Ni fydd ceisiadau a dderbynnir wedi'r amser hwn yn cael eu hystyried. Dylai pob ymgeisydd ganiatáu digon o amser i gyflwyno eu cais.

5. Bydd y Cyngor yn gwerthuso pob Cais ac yn penderfynu a ddylid caniatáu'r consesiwn a geisir. Bydd y gwerthusiad yn dilyn gweithdrefn un cam a chaiff ei werthuso yn erbyn y meini prawf canlynol:

    - Rhan 1 : Manylion yr Ymgeisydd
    - Rhan 2 : Manylion gweithredu y weithgaredd dan sylw
    - Rhan 3 : Diogelwch a Mesurau Diogelu
    - Rhan 4 : Gwerth Economaidd/Cyfleuster
    - Rhan 5 : Cynnig Ariannol

6. Bydd angen isafswm trothwy sgôr o 4 ar gyfer pob Rhan o'r Cais. (Gweler y matrics sgorio).

7. Rhaid cwblhau, llofnodi ac atodi'r Ffurflen Gais. Rhaid i unrhyw lofnodion gael eu gwneud gan berson sydd wedi'i awdurdodi'n briodol i wneud hynny.

8. Bydd yr ymgeisydd yn talu'r holl gostau sy'n gysylltiedig â pharatoi'r Ffurflen Gais yn llawn. Ni fydd Cyngor Gwynedd yn atebol, o dan unrhyw amgylchiadau, am unrhyw gostau neu daliadau a achosir gan yr ymgeisydd.

9. Bydd unrhyw Gontract sy'n deillio o hyn yn cynnwys y Telerau ac Amodau Safonol ac unrhyw Delerau ac Amodau Arbennig sy'n benodol i'r consesiwn a bydd yn ddarostyngedig i gyfreithiau Cymru a Lloegr. Gweler ynghlwm gopi o'r Telerau ac

Amodau Safonol.

10. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i ganslo'r broses ymgeisio ar unrhyw adeg. Nid yw'r Cyngor yn atebol am unrhyw gostau sy'n deillio o unrhyw ganslo'r broses hon.

11. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i gyhoeddi dogfennaeth atodol ar unrhyw adeg yn ystod y broses i egluro unrhyw fater neu i ddiwygio unrhyw agwedd ar y ddogfen. Ystyrir bod yr holl ddogfennaeth bellach o'r fath a gyhoeddir yn rhan o'r cais a bydd yn ategu a/neu'n disodli unrhyw ran o'r cais i'r graddau a nodir.

**<u>Amserlen</u>**

Amserlen ddangosol yn unig yw hon. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i'w newid yn ôl ei ddisgresiwn.

| CAM | DYDDIAD(AU) |
|---|---|
| Hysbyseb | 8 Rhagfyr 2025 |
| Dyddiad cau cyflwyno cais | 28 Ionawr 2026 |
| Cwblhau'r Asesiad | 30 Ionawr 2026 |
| Hysbysiad canlyniad yr asesiad (Amcangyfrifiedig) | 30 Ionawr 2026 |
| Dyddiad disgwyliedig dyfarnu'r Contract(au) | 1 Ebrill 2026 |
| Meddiannaeth Consesiwn | Ar ôl derbyn contract wedi'i gyd-lofnodi a thaliad llawn.<br><br>Sylwch, ni chaniateir i ymgeiswyr feddiannu mewn unrhyw ffurf nes bod y contract wedi'i lofnodi a bod taliad wedi'i dderbyn yn llawn. |

**<u>Ymholiadau a Gwybodaeth Bellach</u>**

Gwasanaethau Morwrol Cyngor Gwynedd:

(01766) 771 000 neu morwrol@gwynedd.gov.uk